Budd-daliadau, Credydau Treth a chymorth ariannol eraill

Rhagymadrodd

Fe rydd y daflen ffeithiau hon drosolwg o'r holl brif fudd-daliadau a chredydau treth sydd ar gael ond y mae'n canolbwyntio ar yr agweddau hynny sy'n effeithio fwyaf ar deuluoedd sydd â phlant anabl.

Fe all fod rhai budd-daliadau yn daladwy oherwydd bod eich plentyn yn anabl ond fe allai fod eraill yn daladwy am wahanol resymau. Er enghraifft, efallai'ch bod yn cael Lwfans Byw i'r Anabl (LBA) dros eich plentyn ond fe allech hefyd allu cael Cymhorthdal Incwm oherwydd bod gennych incwm isel.

Y mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi sylw i:

- Hawlio budd-daliadau a Chredydau Treth;
- Budd-daliadau a gofalu am blentyn anabl;
- Budd-daliadau i deuluoedd sydd ar incwm isel;
- Credydau Treth i bobl sy'n gweithio, ac i bobl sydd â phlant;
- Budd-daliadau pan fo'ch plentyn yn cyrraedd 16;
- Budd-daliadau i wŷr a gwragedd gweddw;
- Budd-daliadau eraill;
- Yr hyn i wneud os ydych yn anfodlon gyda phenderfyniad ynglŷn â budd-daliadau neu gredydau treth;
- Cwestiynau a ofynnir yn aml;
- Cael cyngor.
-

Y mae'r daflen ffeithiau hon hefyd yn rhoi sylw i:

- Mathau eraill o gymorth ariannol a all fod ar gael.

Rhybudd!
Daliwch sylw, os gwelwch yn dda, fod rheolau budd-daliadau yn wahanol os ydych yn gofalu am oedolyn ac fe ddylech gael cyngor cyn hawlio. Fe allwch gael cyngor oddi wrth Ganolfan Gynghori leol neu oddi wrth Uned Hawliau Lles.

Hawlio Budd-daliadau a Chredydau Treth

Meini prawf cymhwyster

Y mae gan bob budd-dal a chredyd treth ei set ei hun o feini prawf cymhwyster. Fe olyga hyn fod arnoch angen bodloni rhai amodau er mwyn bod yn gymwys.

I gael rhai budd-daliadau, fe fydd yn rhaid eich bod wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y gorffennol er mwyn derbyn y budd-dal yn awr – fe elwir y rhain yn *fudd-daliadau ar sail cyfraniadau*.

Fe fydd rhai budd-daliadau ond yn cael eu talu os ydych chi neu'ch teulu ar incwm isel a gyda chynilion o lai na rhyw swm neilltuol – fe elwir y rhain yn *fudd-daliadau prawf modd.*

Y mae'r rhain ond yn feini prawf sylfaenol ac y mae gan bob un o'r budd-daliadau amodau eraill y bydd yn rhaid eu bodloni cyn y gellir eu talu. Fe ellir talu rhai budd-daliadau, fel Lwfans Byw i'r Anabl, yn llawn hyd yn oed os nad ydych erioed wedi gweithio ac nid yw unrhyw incwm arall neu gynilion a all fod gennych yn effeithio arnynt.

Pa bryd i hawlio

Unwaith yr ydych yn gwybod pa fudd-dal neu gredyd treth i'w hawlio, llenwch ac anfonwch y ffurflen hawlio budd-dal i mewn i'r swyddfa briodol yn syth. Y mae'n anodd ôl-ddyddio dyfarniadau ac ar gyfer rhai budd-daliadau (e.e. Lwfans Byw i'r Anabl), ni all taliad gwmpasu cyfnod cyn y dyddiad y gwnaethoch y cais, ni waeth beth yw'r amgylchiadau. Hyd yn oed os nad ydych yn sicr a fyddwch yn gymwys ai peidio, yn aml y peth gorau yw gwneud cais yn awr gan y gallwch fod ar eich colled os gwnewch oedi. Fe ddylai Llinell Gymorth Cyswllt Teulu, Canolfan Gynghori leol neu Uned Hawliau Lles gynnal archwiliad budd-daliadau llawn ar eich cyfer.

Cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith

Mewn rhai rhannau o'r wlad, y mae'n rhaid i bobl sy'n gwneud cais am rai budd-daliadau fynychu cyfweliad gorfodol i drafod cyflogaeth, hyfforddiant a chyfleoedd addysgol. Fe gaiff hyn ei ymestyn i bob rhan o'r Deyrnas Unedig erbyn 2006. Efallai y bydd yn rhaid ichi fynychu cyfweliad os ydych yn hawlio budd-daliadau profedigaeth, Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Anabledd Difrifol neu Lwfans Gofalwr. Efallai hefyd y bydd yn rhaid ichi fynychu cyfweliad os yw'ch cymar yn hawlio unrhyw un o'r pedwar budd-dal olaf (ac y mae'n derbyn taliadau ychwanegol amdanoch chi) neu os ydyw'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm. Fe all peidio â mynychu cyfweliad heb reswm da arwain at ostwng eich budd-dal neu hyd yn oed ei atal yn gyfan gwbl. Y mae Cyswllt Teulu yn cynhyrchu canllaw byr i gyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith, ac y mae ar gael am ddim oddi wrth y Llinell Gymorth.

Sut y caiff budd-daliadau eu talu?

Y mae rhai budd-daliadau yn cael eu talu yn awr fel credydau treth gan Gyllid y Wlad. I bobl sy'n gweithio, fe delir y rhain drwy'r cyflogau, ond fe gaiff unrhyw symiau ar gyfer plant ac i gynorthwyo gyda chostau gofal plant eu talu i'r person gyda'r prif gyfrifoldeb am y plant. Fe delir y taliadau hyn fel arfer yn uniongyrchol i gyfrif banc y rhiant.
Y mae'r rhan fwyaf o fudd-daliadau eraill yn cael eu gweinyddu gan wahanol swyddfeydd yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yn flaenorol, fe dderbyniai llawer o

hawlwyr daliadau drwy lyfr archebion neu siec giro. Fodd bynnag, y mae'r llywodraeth yn dymuno talu pob budd-dal i gyfrifon banc, cymdeithas adeiladu neu swyddfa'r post, proses y mae'n gobeithio'i gorffen yn ystod 2005. Fe fydd dulliau eraill o dalu ond cael eu hystyried os na all unigolyn ddefnyddio cyfrif. Fe gaiff unrhyw fudd-daliadau y mae'ch plentyn yn eu cael eu talu i chi fel ei riant.

Budd-daliadau a gofalu am blentyn anabl

Lwfans Byw i'r Anabl (LBA)

Lwfans Byw i'r Anabl yw'r prif fudd-dal ar gyfer plant anabl (fe all oedolion anabl hawlio'r budd-dal hwn iddynt eu hunain er bod y rheolau ychydig yn wahanol). Fe'i telir fel arfer bob pedair wythnos ac nid oes prawf modd arno. Fe olyga hyn y gellir talu'r budd-dal hwn ichi, ni waeth beth fo'ch amgylchiadau ariannol. Y mae yna ddwy ran i LBA ac fe ellir hawlio'r naill neu'r llall neu'r ddwy ran:

1. ELFEN GOFAL

Os oes ar eich plentyn, oherwydd anabledd corfforol neu feddyliol, angen llawer o ofal neu gymorth gyda gofal personol, fe ddylai ef neu hi fod yn gymwys am yr elfen gofal. Y mae hwn yn daladwy ar dair cyfradd, yn dibynnu ar faint o ofal ychwanegol y mae ar eich plentyn angen. Fe ellir ei dalu o 3 mis neu o enedigaeth os yw cyflwr eich plentyn yn derfynol.

2. ELFEN SYMUDEDD

Os oes ar eich plentyn angen cymorth i fynd o amgylch, fe all ef neu hi fod yn gymwys am yr elfen symudedd.
Y mae'r gyfradd is o elfen symudedd ar gyfer plant a all gerdded ond a all fod angen rhywun i'w goruchwylio neu i'w tywys hwynt. Y cynharaf y gellir talu hwn yw o 5 mlwydd oed.
Y mae'r gyfradd uwch ar gyfer y sawl a all fod yn methu â cherdded neu sy'n cael anawsterau difrifol i gerdded. Fe ellir hefyd ei dalu i blant sy'n derbyn cyfradd uwch o elfen gofal ac sydd â nam meddwl difrifol yn ogystal â phroblemau ymddygiad difrifol. Fe'i telir hefyd i bobl sy'n fyddar ac yn ddall neu i'r sawl y gall eu hiechyd ddirywio drwy'r ymdrech i gerdded. Y cynharaf y gellir talu hwn yw o 3 mlwydd oed. Fe all cael y gyfradd uwch ar gyfer symudedd olygu y gallwch wneud cais am fathodyn glas ar gyfer parcio i'r anabl ac ar gyfer eithrio rhag treth y ffordd fawr. Cysylltwch â'r Llinell Gymorth am ragor o fanylion.

Hawlio Lwfans Byw i'r Anabl

Defnyddiwch ffurflen hawlio DLA(1) Plentyn sydd ar gael mewn swyddfeydd budd-daliadau lleol neu drwy ffonio BEL, y Llinell Ymholiadau Budd-daliadau, Ffôn: 0800 88 22 00 (Ffôn: 0800 22 06 74 yng Ngogledd Iwerddon). Os gofynnir am y ffurflen oddi wrth BEL, fe fydd y dyddiad wedi'i stampio arni ac fe fydd gan y sawl sy'n hawlio 6 wythnos i gwblhau a dychwelyd y ffurflen. Y mae hyn yn caniatáu i fudd-dal gael ei dalu o'r dyddiad y gofynnwyd am y ffurflen, ar yr amod bod eich plentyn yn gymwys yn ystod yr wythnosau hyn. Fel arall, y dyddiad cynharaf pryd y gellir talu budd-dal yw'r dyddiad y derbyniwyd y ffurflen gan y

swyddfa budd-daliadau. Y peth gorau fel arfer yw cael cymorth gyda'r ffurflen oddi wrth ganolfan gynghori leol neu brosiect cyngor am anabledd gan ei bod yn faith iawn ac yn anodd ei chwblhau.

Os oes yna waeledd terfynol ar eich plentyn ac nid oes disgwyl iddo fyw am fwy na 6 mis, fe ellir gwneud cais o dan weithdrefn llwybr carlam a adwaenir fel 'rheolau arbennig'. Fe fydd ond angen ichi gwblhau rhan 1 o'r pecyn LBA a'r adrannau hynny o ran 2 sy'n ymdrin â mynd o amgylch yn yr awyr agored. Fodd bynnag, fe fydd arnoch angen tystysgrif feddygol DS1500 hefyd sydd ar gael oddi wrth eich Meddyg Teulu neu arbenigwr ysbyty. Fe ddylai plentyn sy'n gymwys o dan y rheolau arbennig dderbyn yn awtomatig yr elfen gofal ar gyfradd uwch.

Lwfans Byw i'r Anabl ac arosiadau dros nos ymaith o'r cartref

Fe all arosiadau mynych a rheolaidd ymaith o'r cartref effeithio ar elfen gofal y LBA. Fe allai hyn fod yn berthnasol pan fo plentyn mewn ysbyty, ysgol breswyl neu ofal seibiant. Y mae'r rheolau yn gymhleth ac y mae'n bwysig iawn ymofyn cyngor. Cysylltwch â'r llinell gymorth am ragor o wybodaeth.

Lwfans Byw i'r Anabl a budd-daliadau eraill

Fe all cael unrhyw gyfradd o Lwfans Byw i'r Anabl eich cynorthwyo chi i fod yn gymwys am symiau ychwanegol ar fudd-daliadau eraill megis Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm a Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor. Fe all hefyd arwain at daliadau uwch o gredydau treth. Os ydych chi'n derbyn Credyd Treth Plant ac yr ydych yn gwneud cais am LBA dros blentyn (neu os gofynnwch am gynnydd mewn dyfarniad elfen gofal LBA presennol), sicrhewch eich bod yn dweud wrth y Swyddfa Credydau Treth eich bod chi'n gwneud hyn. Fe ddylai hyn fod o gymorth i ddiogelu'ch hawl i unrhyw gredydau treth ychwanegol a gaiff eu hôl-ddyddio. Cyn belled ag eich bod yn dweud wrth y swyddfa Credydau Treth pa bryd yr ydych yn hawlio LBA ac wedyn yn cysylltu eto i adael iddynt wybod pan gewch ddyfarniad, fe ellir ôl-ddyddio unrhyw daliadau credydau treth ychwanegol yn unol â dyfarniad y LBA.

Lwfans Gofalwr (LG) – a adwaenid yn flaenorol yn Lwfans Gofal Analluedd.

Os yw'ch plentyn yn derbyn cyfradd ganolig neu uchaf o'r elfen gofal o LBA, fe allech hefyd fod â'r hawl i dderbyn LG fel eu gofalwr. I fod yn gymwys, y mae arnoch angen bod yn:

- Gofalu am y plentyn am o leiaf 35 o oriau'r wythnos;
- Os ydych yn gweithio, ni chewch ennill mwy nag £82 yr wythnos (ar ôl didynnu rhai mathau o gostau gofal plant a threuliau eraill);
- Dros 16 mlwydd oed;
- Heb fod mewn addysg amser llawn (caiff hyn ei gategoreiddio fel 21 o oriau neu fwy'r wythnos).

Os nad ydych yn gymwys ond bod rhywun arall yn cynorthwyo gyda gofalu am eich plentyn, fe allant hwynt hawlio yn eich lle. Er enghraifft, fe allai fod gennych berthynas sy'n cynorthwyo tra eich bod chi'n gweithio.

Faint yw LG?

Fe delir LG ar gyfradd sylfaenol o £45.70 yr wythnos. Gan ddibynnu ar eu hincwm, fe allwch hawlio swm ychwanegol o £27.30 ar gyfer priod dibynnol (neu ar gyfer rhywun nad ydych yn briod ag ef/hi ond sy'n gofalu am eich plant).

Hawlio LG

Gwnewch gais gan ddefnyddio ffurflen DS700 sydd ar gael oddi wrth eich Swyddfa Budd-daliadau Ieol neu'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau. Cyflwynwch gais am LG, hyd yn oed os nad yw'r person yr ydych yn gofalu amdano eto wedi derbyn penderfyniad am eu cais am LBA. Fe ddylai hyn fod o gymorth i ddiogelu'ch hawl i unrhyw arian a gaiff ei ôl-ddyddio. Fodd bynnag, hyd yn oed os nad ydych yn gwneud hyn, y mae gennych yr hawl o hyd i dri mis o fudd-dal wedi'i ôl-ddyddio, cyn belled ag eich bod wedi diwallu'r amodau yn ystod yr amser hynny.

LG a budd-daliadau eraill

Fel arfer, ni thelir LG ichi ar yr un adeg â Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Mamolaeth, Budd-daliadau Profedigaeth, Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar gyfraniadau, a Phensiwn Ymddeol y Wladwriaeth. Fodd bynnag, fe all cais am LG ddal i'ch cynorthwyo chi, hyd yn oed os na ellir ei dalu ichi oherwydd eich bod yn cael un o'r budd-daliadau hyn. Y mae hyn oherwydd y gall eich cymorth i fod yn gymwys am fudd-daliadau prawf modd megis Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor (gweler yr adran am bremiwm gofalwyr yn "Budd-daliadau i deuluoedd sydd ar incwm isel").

Os ydych eisoes yn cael budd-daliadau neu gredydau treth prawf modd, sicrhewch eich bod yn hysbysu'r swyddfa briodol os dyfarnir LG ichi. Fe all peidio â gwneud hyn arwain at or-dalu.

Budd-daliadau i Deuluoedd ar Incwm Isel

Cymhorthdal Incwm (CI)

Y mae CI yn fudd-dal prawf modd i gynorthwyo unigolion neu deuluoedd sydd ar incwm isel ac sydd â chynilion sy'n is nag £8,000. I fod yn gymwys, y mae'n rhaid ichi fod yn rhywun nad oes angen iddo fod ar gael ar gyfer gwaith, er enghraifft, gofalwr neu riant unigol. Fel arfer, y mae'n rhaid eich bod yn gweithio llai nag un awr ar bymtheg yr wythnos ac os oes gennych gymar, y mae'n rhaid iddo ef/iddi hi fod yn gweithio llai na phedair awr ar hugain yr wythnos. Fodd bynnag, fe all rhai gofalwyr hawlio cymhorthdal incwm, ni waeth faint o oriau y maent yn gweithio.

Y mae CI wedi'i ffurfio o symiau a bennir gan y llywodraeth bob blwyddyn o'r enw **Lwfansau Personol** a **Phremiymau**.

Y mae **Lwfansau Personol** yn daliadau wythnosol tuag at dreuliau byw o ddydd i ddydd i chi ac i'ch cymar, os oes gennych un, ac ar gyfer unrhyw blant dibynnol (ond gweler 'Symiau ar gyfer Plant' isod).

Y mae **Premiymau** yn symiau wythnosol i rai pobl sydd ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys:

- Os ydych chi'n cael LG neu os oes gennych 'hawl gwaelodol', yr ydych yn gymwys i gael y *Premiwm Gofalwr;*
- Os oes gennych o leiaf un plentyn, yr ydych yn gymwys i gael y *Premiwm Teulu* (ond gweler 'Symiau ar gyfer Plant' isod);
- Os oes gennych blentyn sy'n cael Lwfans Byw i'r Anabl ar unrhyw gyfradd, fe fyddwch yn gymwys i gael *Premiwm Plentyn Anabl* (ond gweler 'Symiau ar gyfer Plant' isod);
- Os yw'ch plentyn yn cael y gyfradd uchaf o elfen gofal y LBA, yr ydych yn gymwys i gael *Premiwm Anabledd Uwch* (ond gweler 'Symiau ar gyfer Plant' isod).

Os ydych yn gymwys i gael CI, fe gaiff y swm y byddwch yn ei gael yn cael ei gyfrifo drwy gyfrif y Lwfansau Personol ac unrhyw Bremiymau yr ydych yn gymwys amdanynt. Hefyd, fe fydd swm tuag at daliadau llog morgais yn cael ei gynnwys os oes gennych forgais (er bod yna fel arfer gyfnod aros cyn y caiff hyn ei gynnwys). Fe elwir y cyfanrif yn 'swm perthnasol'. Os nad oes gennych incwm arall, fe fyddech yn derbyn y swm hwn mewn CI. Os oes gennych incwm arall, gan gynnwys enillion rhan amser a budd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill, fe gaiff symiau'r rhain eu didynnu ac fe delir y gwahaniaeth i chi. Fe anwybyddir rhai mathau o incwm, er enghraifft taliadau LBA a symiau bychain o enillion. Hefyd, fe dybir y bydd gennych rywfaint o incwm oddi wrth unrhyw gynilion sydd gennych dros £3,000.

Symiau dros blant

Y mae'r Credyd Treth Plant (CTP) yn disodli cymorth ariannol a delir dros blant yn yr asesiad CI. Y mae hyn eisoes wedi digwydd gyda phob un o geisiadau newydd am Gymhorthdal Incwm. Yr oedd teuluoedd sy'n cael CI cyn Ebrill 2004 wedi cael yn gychwynnol y dewis o barhau i gael symiau dros eu plant wedi'u cynnwys yn eu CI. Fodd bynnag, ar ryw adeg ar ôl Ebrill 2005, fe fydd y teuluoedd hyn yn awtomatig yn cael eu trosglwyddo i Gredyd Treth Plant. Bryd hynny, dim ond y symiau i oedolion o Gymhorthdal Incwm a delir, gyda thaliad ar wahân o gredyd treth plant yn cael ei wneud dros blant. Fe fydd y rhan fwyaf o rieni yn parhau i dderbyn CI ar gyfradd is. Fodd bynnag, fe all rhai teuluoedd ganfod nad ydynt mwyach yn derbyn CI unwaith y mae symiau dros eu plant wedi'u tynnu ymaith. Y mae'r llywodraeth yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o rieni sydd ar Gymhorthdal Incwm, o ganlyniad i drosglwyddo i fod ar Gredyd Treth Plant, naill ai'n well eu byd neu fe fyddant yn gweld dim newid yng nghyfanswm eu hincwm wythnosol.

Fodd bynnag, fe allai nifer fechan iawn fod ar eu colled. Cysylltwch â'n Llinell Gymorth am gyngor manwl os hoffech wybod sut yr effeithir arnoch gan

ddyfarniad Credyd Treth Plant. Am fwy o wybodaeth am y Credyd Treth Plant, gweler 'credydau treth ar gyfer pobl sy'n gweithio, ac ar gyfer pobl sydd â phlant'.

Credyd Pensiwn

Y mae'r Credyd Pensiwn wedi'i ffurfio o ddwy ran, y *Credyd Gwarant* a'r *Credyd Cynilion*:

Credyd Gwarant
Y mae hwn wedi'i gynllunio i sicrhau lleiafswm incwm. I fod yn gymwys, y mae'n rhaid i chi (neu'ch cymar) fod yn 60 mlwydd oed neu drosodd a bod ag incwm sy'n is na rhyw lefel neilltuol. Y mae'r lefel hon yn amrywio i bobl mewn gwahanol amgylchiadau. Y mae'r cyfrifiad yn tybio y bydd gennych incwm oddi wrth unrhyw gynilion o dros £6,000 ond nid oes yna derfyn uchaf. Ni fydd yr asesiad yn cynnwys unrhyw symiau dros blant. Os oes gennych blant, fe fydd arnoch angen hawlio Credyd Treth Plant. Gweler '*Credydau treth ar gyfer pobl sy'n gweithio ac ar gyfer pobl sydd â phlant'.*

Credyd Cynilion

Y mae hwn wedi'i gynllunio i wobrwyo pobl sydd wedi cynilo neu wedi gwneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer eu hymddeoliad. I fod yn gymwys, y mae'n rhaid i chi (neu'ch cymar) fod yn o leiaf 65 mlwydd oed. Fe seilir y dyfarniad ar faint y mae'ch incwm yn fwy na throthwy neilltuol. Fodd bynnag, fe fydd lefelau incwm uwch yn arwain at ddim hawl.

Sut i ymgeisio

Cysylltwch â: **Y Gwasanaeth Pensiwn**, Ffôn: 0800 99 1234 Ffôn Testun: 0800 169 0133 (Llun-Gwener, 8.00 y bore – 8.00 yr hwyr & Sadwrn, 9.00 y bore -1.00 y pnawn). Ar gyfer Gogledd Iwerddon, Ffôn: 0808 100 6165. Os nad y Saesneg yw'ch iaith gyntaf, fe allwch hefyd ffonio'r rhif perthnasol a roddir uchod a gofynnwch am gyfieithydd.

Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm (LCGsi)

Y mae LCGsi yn debyg iawn i Gymhorthdal Incwm. Y prif wahaniaeth yw ei fod wedi'i gynllunio i gynorthwyo pobl na allant hawlio Cymhorthdal Incwm, sydd ag incwm isel ac sy'n chwilio am waith. Fe gaiff ei gyfrifo yn union yn yr un modd â chymhorthdal Incwm ac fe effeithir arno hefyd gan unrhyw gynilion neu gyfalaf arall y gall fod gennych. Os oes gennych forgais, fe all gynnwys peth cymorth tuag at y taliadau llog. Y mae symiau a delir dros blant gyda LCGsi i'w disodli gan Gredyd Treth Plant. Fe wneir hyn ar yr un sail ag ar gyfer Cymhorthdal Incwm (gweler 'symiau dros blant' uchod). Am fwy o wybodaeth am Lwfans Ceisio Gwaith, gweler 'Budd-daliadau Eraill'.

Y mae cael CI, LCG sy'n seiliedig ar incwm neu'r Credyd Pensiwn (Credyd Gwarant) yn cynorthwyo gyda chostau eraill. Os cewch un o'r budd-daliadau hyn, fe ddylech hefyd fod yn gymwys am:

- Fudd-dal Tai os ydych yn talu rhent ('ad-daliad rhent' yng Ngogledd Iwerddon);
- Budd-dal Treth Cyngor os ydych yn talu treth cyngor ('ad-daliad treth' yng Ngogledd Iwerddon);
- Presgripsiynau am ddim a thriniaeth ddeintyddol am ddim;
- Profion llygaid am ddim ar y GIG a thalebau am ddim i gynorthwyo gyda'r gost o brynu sbectol;
- Cinio ysgol am ddim;
- Grantiau tai;
- Cymorth gyda threuliau teithio i ysbyty am driniaeth ar y GIG;
- Llefrith a fitaminau am ddim i ferched beichiog, i famau sy'n bwydo o'r fron ac i blant hyd at bum mlwydd oed;
- Cymorth oddi wrth y Gronfa Gymdeithasol (gweler isod).

Budd-dal Tai (BT) & Budd-dal Treth Cyngor (BTC)

Y mae'r budd-daliadau hyn yn cynorthwyo pobl sydd ar incwm isel i dalu'r rhent a'u treth cyngor (fe'u gelwir hwynt yn Ad-daliadau Rhent a Threth yng Ngogledd Iwerddon). Os ydych eisoes yn cael CI, LCG sy'n seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn (Credyd Gwarant), fe fyddwch fel arfer yn gymwys am BT a BTC llawn. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw'ch incwm yn rhy uchel i dderbyn unrhyw un o'r budd-daliadau cymwys uchod, fe allech eto i gyd gael rhywfaint o BT a BTC. Y mae maint y cymorth a gewch yn dibynnu ar faint yw'ch incwm dros lefel Cymhorthdal Incwm neu lefel y lleiafswm gwarant (ar gyfer hawlwyr 60 mlwydd oed neu drosodd.) Fe wrthodir BT a BTC yn awtomatig ichi os oes gennych gynilion neu gyfalaf o £16,000 neu ragor (oni bai'ch bod yn cael y Credyd Pensiwn (Credyd Gwarant)).

Y mae BT a BTC yn fudd-daliadau Awdurdodau Lleol sy'n golygu y bydd arnoch angen cysylltu â'ch cyngor lleol i gael ffurflenni hawlio. Yng Ngogledd Iwerddon, y mae ceisiadau am Ad-daliadau Rhent a Threth yn cael eu trin gan Adran Weithredol Tai Gogledd Iwerddon neu'r Asiantaeth Casglu Trethi.

Y Premiwm Gofalwr

Nid yw'r premiwm gofalwr yn fudd-dal ynddo'i hun. Yn hytrach, y mae'n swm ychwanegol a ychwanegir at y cyfrifiadau a wneir wrth gyfrifo'ch hawl i'r budd-daliadau prawf modd a grybwyllir uchod. Y mae premiwm gofalwr yn cael ei gynnwys yn y cyfrifiadau hyn os telir Lwfans Gofalwr ichi neu os ydych wedi hawlio Lwfans Gofalwr a'r unig reswm pan nas telir yw oherwydd eich bod yn cael budd-dal arall yn ei le. Fe all bod yn gymwys am y premiwm gofalwr olygu y byddwch yn well eich byd o hyd at £25.80 yr wythnos.

Y Gronfa Gymdeithasol

Fe rydd y Gronfa Gymdeithasol amrywiol fathau o daliadau a gynlluniwyd i gynorthwyo pobl sydd ar incwm isel gyda chostau penodol. Y mae ceisiadau am unrhyw un o'r taliadau yn cael eu trin gan eich Swyddfa Budd-daliadau neu'ch

swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol. Y mae yna amryw o wahanol fathau o daliadau y gellwch eu cael gan gynnwys:

- **Grantiau Mamolaeth** – Os ydych yn cael CI, LCG sy'n seiliedig ar incwm, Credyd Pensiwn, Credyd Treth Plant (ar gyfradd sy'n uwch na'r elfen teulu), neu Gredyd Treth i Bobl sy'n Gweithio (sy'n cynnwys elfen anabledd), fe allwch gael £500 i gynorthwyo gyda'r costau ychwanegol pan fo gennych faban newydd;
- **Taliadau Angladd** – Os ydych yn derbyn CI, LCG sy'n seiliedig ar incwm, Credyd Pensiwn, Credyd Treth Plant (ar gyfradd sy'n uwch na'r elfen teulu), Credyd Treth i Bobl sy'n Gweithio (sy'n cynnwys elfen anabledd), Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, fe allwch fod yn gymwys am swm tuag at gost angladd perthynas agos;
- **Taliadau Tywydd Oer** - taliad awtomatig ar gyfer rhai grwpiau pan fo'r tymheredd yn gostwng i lefel neilltuol dros gyfnod o wythnos;
- **Taliadau Tanwydd y Gaeaf** - taliad blynyddol awtomatig ar gyfer cartrefi gyda pherson dros 60;
- **Benthyciadau Argyfwng** - cymorth ariannol pan fo gennych sefyllfa argyfyngus a dim unrhyw fodd arall o gael cymorth;
- **Benthyciadau Trefnu** - ar gyfer teuluoedd sydd ar GI, LCG sy'n seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn, benthyciad i gynorthwyo gyda **Grantiau Gofal yn y Gymuned -** taliad i ysgafnhau pwysau eithriadol ar deuluoedd neu i gynorthwyo pobl sydd naill ai mewn perygl o fynd dan ofal neu sydd angen cymorth i ymgartrefu yn y gymuned ar ôl arhosiad mewn gofal preswyl neu garchar. I fod yn gymwys, y mae'n rhaid ichi fod yn derbyn CI, LCG sy'n seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn. Fel arfer, fe roddir grant am eitemau penodol. Fe allai hyn gynnwys dillad, dillad gwely ac eitemau eraill i'r cartref. Fe all hefyd gynorthwyo gyda chostau ymweld â rhywun mewn ysbyty. Y mae Grantiau Gofal yn y Gymuned yn aml yn cael eu dyfarnu i deuluoedd sydd â phlant anabl neu blant sydd â phroblemau iechyd difrifol.

Y mae gan bob un o'r taliadau ei set ei hun o feini prawf y mae arnoch angen eu diwallu er mwyn bod yn gymwys. Y mae rhai o'r taliadau yn ôl disgresiwn. Fe olyga hyn efallai na thelid hwn ichi hyd yn oed os ydych yn diwallu'r meini prawf. Am fwy o wybodaeth am daliadau'r Cronfa Gymdeithasol, cysylltwch â'ch Canolfan Gynghori leol, eich Uned Hawliau Lles leol, neu ffoniwch Linell Gymorth Cyswllt Teulu.

Prisiau Tocynnau i Ysbyty am driniaeth

Os ydych chi'n derbyn **Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn (Credyd Gwarant)**, fe allwch hawlio cymorth gyda chostau teithio i ac o'r ysbyty ar gyfer triniaeth ar y GIG pan ydych yn hebrwng eich plentyn. Fe allwch hefyd hawlio os ydych yn cael Credyd Treth Gwaith (gan gynnwys elfen anabledd) neu Gredyd Treth Plant, ac nad yw'ch incwm blynyddol crynswth yn fwy na throthwy sefydlog (£14,600 yn 04/05, sy'n debygol o fod ychydig yn uwch yn 05/06). Fe allwch gael ad-daliad o'ch tocynnau teithio yn uniongyrchol oddi wrth yr ysbyty os gallwch ddangos tystiolaeth eich bod yn derbyn budd-daliadau. Os nad ydych yn cael y budd-daliadau hyn ond

eich bod ar incwm isel (os yw'ch plentyn yn 16 mlwydd oed neu hŷn, eu hincwm hwynt sy'n cyfrif, nid un y chi), fe allech eto oll allu cael cymorth. Os ydych ar incwm isel ac yn dymuno gwneud cais, gofynnwch i'r ysbyty neu'r Swyddfa Budd-daliadau am ffurflenni HC5 a HC1.

Os nad y chi yw'r claf ond eich bod yn ymweld â pherthynas agos ac yr ydych yn derbyn **Cymhorthdal Incwm**, **Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm** neu **Gredyd Pensiwn**, fe allech gael Grant Gofal yn y Gymuned oddi wrth y Gronfa Gymdeithasol. Unwaith eto, gofynnwch yn eich Swyddfa Budd-daliadau leol am ffurflen.

Budd-daliadau'r GIG

Y mae'r rhain yn cynnwys presgripsiynau am ddim, triniaeth ddeintyddol am ddim, profion llygaid y GIG am ddim, a thalebau i gynorthwyo gyda chostau sbectol. Fe all amrywiol grwpiau fod yn gymwys am y cymorth hwn, gan gynnwys y sawl sydd ar Gymhorthdal Incwm, LCG sy'n seiliedig ar incwm a Chredyd Pensiwn (Credyd Gwarant). Hefyd, os ydych chi'n derbyn Credyd Treth Gwaith (gan gynnwys elfen anabledd) neu Gredyd Treth Plant, ac nad yw'ch incwm blynyddol crynswth yn fwy na throthwy sefydlog (£14,600 yn 04/05, sy'n debygol o fod ychydig yn uwch yn 05/06), fe allwch fod yn gymwys am fudd-daliadau'r GIG. Y mae yna hefyd Gynllun Incwm Isel ar gyfer pobl eraill a 'thystysgrifau rhagdaliadau' a allai gynorthwyo i leihau taliadau presgripsiwn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cleifion, Ffôn: 0845 850 1166 neu'r Llinell Llenyddiaeth Iechyd, Ffôn: 0800 555 777.

Llefrith a Fitaminau am ddim

Os ydych yn cael Credyd Treth Plant (ond nid Credyd Treth Gwaith) ac y mae'ch incwm yn llai na £13,910, CI, LCG sy'n seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn (Credyd Gwarant), ac y mae naill ai chi, neu rywun sy'n dibynnu arnoch, yn feichiog neu wedi cael baban yn ddiweddar, fe allwch gael llefrith hylifol neu laeth powdr a fitaminau am ddim. Hefyd, fe allwch gael llefrith am ddim os yw'ch plentyn anabl dros 5 mlwydd oed ac yn methu â mynd i'r ysgol oherwydd ei anabledd. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch Swyddfa Budd-daliadau leol neu ffoniwch linell gymorth Cynllun Bwyd Lles Am Ddim, Ffôn: 0800 056 2665. Fe fydd y Cynllun Bwyd Lles yn cael ei ddisodli gan Cychwyn Iach yn ystod 2005/06, sef cynllun newydd sy'n cynnig talebau ar gyfer ystod o fwydydd, gan gynnwys ffrwythau ir, llysiau a fformiwla hylif/babanod.

Credydau Treth i bobl sy'n gweithio ac i bobl sydd â phlant

Y mae yna ddau o gredydau treth:

- **Credyd Treth Gwaith (CTG) –** credyd treth gyda phrawf modd ar gyfer pobl sy'n gweithio sydd ar incymau isel;
- **Credyd Treth Plant (CTP)** – credyd treth gyda phrawf modd ar gyfer pobl sydd â phlant.

Y mae'r ddau gredyd treth yn cael eu gweinyddu gan Gyllid y Wlad ac y mae modd eu hawlio ar yr un ffurflen – TC600. Y mae hon ar gael oddi wrth eich swyddfa Cyllid y Wlad leol neu'r Llinell Gymorth Credydau Treth, Ffôn: 0845 300 3900 (Ffôn: 0845 603 2000 yng Ngogledd Iwerddon). Fe ellir hefyd wneud ceisiadau yn electronig drwy gyfrwng Cyllid y Wlad ar y Wefan: http://www.taxcredits.inlandrevenue.gov.uk/HomeIR.aspx
Y mae'n rhaid i gyplau wneud cais ar y cyd.

Credyd Treth Gwaith (CTG)

Yr ydych yn gymwys am CTG os oes gennych blentyn (o dan 16, neu o dan 19 ac yn dal mewn addysg amser llawn) ac os yr ydych (neu'ch cymar os oes gennych un) yn gweithio o leiaf 16 o oriau'r wythnos. Y mae CTG hefyd ar gyfer rhai pobl sydd ar gyflog isel heb blant: pobl sydd ag anabledd sy'n gweithio o leiaf 16 o oriau'r wythnos, pobl dros 50 sydd yn ddiweddar wedi dychwelyd i weithio ar ôl cyfnod ar fudd-daliadau, a phobl dros 25 sy'n gweithio o leiaf 30 o oriau'r wythnos.

Y nifer o oriau yr ydych 'yn perfformio fel arfer' o dan eich cytundeb, gan anwybyddu egwyl prydau bwyd di-dâl ac anwybyddu gwyliau gyda thâl, sy'n cyfrif. Er enghraifft, os ydych yn rheolaidd yn gweithio oriau ychwanegol, fe gaiff yr oriau ychwanegol eu cynnwys. Y mae yna reolau arbennig i ganiatáu i rai pobl fod yn gymwys a fu'n gweithio ond sydd bellach wedi rhoi'r gorau iddi, gan gynnwys gweithwyr ysgol yn gweithio yn ystod y tymor ysgol yn unig, merched ar Dâl Mamolaeth Statudol neu Lwfans Mamolaeth, pobl ar Dâl Tadolaeth neu Fabwysiadu Statudol, a phobl nad ydynt yn gweithio ar y pryd oherwydd gwaeledd ac yn cael Tâl Salwch Statudol.

Fe all CTG gynnwys symiau ychwanegol ar gyfer gweithwyr anabl, y sawl sy'n gweithio mwy na 30 o oriau'r wythnos, a chymorth tuag at rai mathau 'wedi'u cymeradwyo' o gostau gofal plant. Fe ellir ond cynnwys costau gofal plant ar gyfer rhieni unigol sy'n gweithio o leiaf 16 o oriau'r wythnos neu ar gyfer cyplau sydd naill ai ill dau yn gweithio 16 o oriau neu ble y mae un cymar yn gweithio 16 o oriau ac y mae'r llall yn anabl i weithio (neu mewn carchar). Yr ydym yn cynhyrchu canllaw manwl i 'Credydau Treth a chymorth gyda chostau gofal plant', sydd ar gael am ddim oddi wrth ein Llinell Gymorth.

Credyd Treth Plant (CTP)

Fe all CTP gael ei hawlio gan unrhyw un sydd â phlentyn dibynnol. Fe allwch wneud cais pa un ai ydych chi'n gweithio ai peidio ac fe'i telir yn ychwanegol at Fudd-dal Plant. Y mae wedi'i ffurfio o elfen teulu sylfaenol (a delir ar gyfradd uwch os oes gennych o leiaf un plentyn o dan 1 mlwydd oed) a symiau dros bob plentyn. Fe allwch dderbyn CTP uwch os oes gennych blentyn sydd ag anabledd. Y mae hyn oherwydd bod yna swm ychwanegol yn cael ei ychwanegu at eich cyfrifiad dros bob plentyn sydd ar LBA neu sydd wedi'i gofrestru fel dall. Os yw'ch plentyn yn cael y gyfradd uchaf o elfen gofal LBA, fe ychwanegir swm ychwanegol yn ogystal.

Fe fydd y swm o gredydau treth y cewch fel arfer yn seiliedig ar eich incwm trethadwy blynyddol. Os oes gennych gymar, fe fydd eich incwm ar y cyd yn cael ei gymryd i ystyriaeth. Er bod yna brawf modd ar Gredydau Treth, yr ydych yn sicr o gael rhywfaint o Gredyd Treth Plant cyn belled â bod eich incwm yn llai na £58,000 (£66,000 os oes gennych faban o dan 1). Mewn rhai amgylchiadau (e.e. y mae gennych fwy nag un plentyn ar LBA ac y mae gennych gostau gofal plant sylweddol), fe allech gael credydau treth hyd yn oed os yw'ch incwm yn uwch na'r ffigurau hyn. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o fudd-daliadau eraill sydd â phrawf modd, nid oes yna derfyn cyfalaf.

Y mae Cyswllt Teulu yn cyhoeddi taflen ffeithiau, "*Y Canllaw ar Gredydau Treth*", sy'n cynnwys 'cyfrifydd parod' i gynorthwyo gydag asesu hawl i gredyd treth. Yr ydym hefyd yn cyflogi arbenigwr ar hawliau lles sy'n gallu cynghori ynglŷn ag unrhyw agwedd o hawlio credydau treth. A fyddech cystal â chysylltu â'n Llinell Gymorth am ddim am ragor o fanylion. Fe allai pobl sy'n gweithio hefyd gael budd-daliadau eraill, gan gynnwys cymorth gyda rhent a threth cyngor os yw eu hincwm a'u cynilion yn ddigon isel - gweler "Budd-daliadau ar gyfer teuluoedd sydd ar incwm isel".

Budd-daliadau pan fydd eich plentyn yn cyrraedd 16

At ei gilydd, fe allwch hawlio budd-daliadau a chredydau treth dros eich plentyn fel dibynnydd tra'i fod o dan 16 neu tan y bydd yn 19 os ydyw'n parhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch. Fodd bynnag, fe all pobl ifanc anabl ddewis hawlio budd-daliadau yn eu rhinwedd eu hunain o 16 mlwydd oed (gweler isod). Er mwyn i'ch plentyn gael budd-daliadau yn ei rinwedd ei hun, fe fydd arnoch angen rhoi'r gorau i fudd-dal plant a symiau drostynt ar unrhyw gredydau treth a budd-daliadau eraill y cewch. Y mae'n bwysig cael cyngor yn gyntaf i sicrhau na fydd hyn yn eich gwneud yn waeth eich byd wrth ystyried faint o fudd-dal y collwch a faint y gwnânt hwynt ei ennill. Hefyd, pan fydd eich plentyn yn cyrraedd 16, fe ellir talu LBA iddo yn uniongyrchol oni bai nad ydyw'n gallu trin ei fusnes ei hun (ac os felly, fe fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dymuno enwebu rhywun, fel arfer y rhiant, i weithredu fel asiant dros y person ifanc).

Pobl ifanc a Budd-dal Analluogrwydd (BA)

Y mae BA wedi'i gynllunio i gynorthwyo pobl nad ydynt yn ddigon da i weithio. Y mae angen bod y rhan fwyaf o bobl wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y gorffennol i gael BA ond y mae pobl ifanc sy'n analluog i weithio yn cael eu heithrio o'r prawf hwn. Fe olyga hyn y gall personau ifainc fod yn gymwys am BA, hyd yn oed os nad ydynt erioed wedi gweithio na thalu Yswiriant Gwladol. Yn yr achosion hyn, fe'i gelwir yn Fudd-dal Analluogrwydd mewn Ieuenctid. Fe delir

BA mewn Ieuenctid yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- y mae'r hawliwr dros 16; **ac**
- y mae o dan 20, neu'n 20-25 mlwydd oed mewn rhai amgylchiadau; **ac**
- y mae wedi bod yn analluog i weithio am 196 o ddiwrnodau cyn y cais (fe all hyn fod am gyfnod cyn pen-blwydd eich plentyn yn 16 mlwydd oed).

Addysg amser llawn a BA mewn ieuenctid

Nid yw BA yn daladwy i bobl o dan 19 sydd mewn addysg amser llawn – ar gyfer y rheol hon, y mae addysg amser llawn yn cael ei chategoreiddio fel 21 o oriau'r wythnos o astudio dan oruchwyliaeth. Fodd bynnag, wrth gyfrifo'r oriau hyn y mae unrhyw ran o'r cwrs sydd ond yn briodol ar gyfer person anabl yn cael ei hanwybyddu. Unwaith y mae personau ifainc yn cyrraedd 19, ni ddylai bod mewn addysg amser llawn eu rhwystro hwynt rhag cael BA.

20 mlwydd oed neu drosodd a chael BA mewn Ieuenctid

Fe all pobl ifanc sy'n gymwys am BA o dan y rheolau uchod barhau i'w dderbyn am gyfnod amhenodol (neu tan nad ydynt mwyach yn analluog i weithio). Fe all pobl ifanc sydd wedi rhoi'r gorau i BA er mwyn dechrau gweithio neu hyfforddiant ad-hawlio BA mewn Ieuenctid eto. Hefyd, fe all pobl sy'n dod yn analluog i weithio pan fônt rhwng 20 a 24 mlwydd oed hawlio BA, hyd yn oed os nad ydynt wedi talu cyfraniadau digonol o Yswiriant Gwladol yn y gorffennol. Fe ddylai Canolfan Gynghori leol neu Uned Hawliau Lles leol allu cynghori rhagor arnoch.

Faint?

Fe delir BA ar wahanol gyfraddau, yn dibynnu ar ba mor hir y mae'r hawliwr wedi bod yn analluog i weithio:

- Cyfradd is fyrdymor am y 6 mis cyntaf - £57.65 yr wythnos;
- Cyfradd uwch fyrdymor am y 6 mis nesaf - £68.20 yr wythnos;
- Cyfradd hirdymor ar ôl 12 mis (neu 6 mis os ar y gyfradd uwch o elfen gofal LBA) - £76.45 yr wythnos.

Unwaith y mae hawlwyr yn derbyn y gyfradd hirdymor, fe allant hefyd gael swm ychwanegol, yn dibynnu faint oedd eu hoed pan ddaethant yn analluog i weithio am y tro cyntaf. Er enghraifft, fe ddylai person ifanc sydd wedi bod ar BA am o leiaf flwyddyn dderbyn £92.50 yr wythnos. Hefyd, fe all symiau ychwanegol fod yn daladwy ar gyfer oedolyn dibynnol.

Beth a olygir drwy 'analluog i weithio'

Yn gychwynnol, fe fydd y Swyddfa Budd-daliadau yn derbyn tystysgrif oddi wrth feddyg yn datgan y dylai'r hawliwr ymatal rhag gweithio. Yn ddiweddarach, fe fydd yn rhaid iddynt fel arfer basio arholiad meddygol er mwyn aros ar BA, er bod rhai grwpiau wedi'u hesgusodi megis pobl sy'n derbyn y gyfradd uchaf o elfen gofal LBA.

Cymhorthdal Incwm (CI)

Fe all pobl sy'n analluog i weithio, gan gynnwys pobl ifanc, gael CI (naill ai ar ei ben ei hun neu'n ychwanegol at unrhyw BA y maent yn ei dderbyn) a budd-daliadau incwm isel eraill. Am fwy o wybodaeth, gweler yr adran "Budd-daliadau ar gyfer teuluoedd sydd ar incwm isel".

Budd-daliadau ar gyfer Gwragedd Gweddw a Gwŷr Gweddw

Budd-daliadau profedigaeth

Y mae budd-daliadau profedigaeth ar gyfer dynion a merched, fel ei gilydd, sydd yn ddiweddar wedi colli'u priod (yn yr Alban, fe allech ddal i fod yn gymwys os oeddech yn byw gyda'ch gilydd ond heb fod yn briod). Y mae yna dri gwahanol fath o fudd-daliadau profedigaeth:

Y mae'r **Taliad Profedigaeth** yn daliad ar ei ben ei hun o £2,000. I fod yn gymwys, y mae'n rhaid ichi fod o dan oed pensiwn pan mae'ch priod yn marw. Os ydych yn hŷn, fe allwch fod yn gymwys os nad oedd eich priod yn cael pensiwn ymddeol yn seiliedig ar ei gyfraniadau Yswiriant Gwladol ei hun. Y mae'n rhaid bod eich priod wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y gorffennol i chi gael y taliad neu fod wedi marw o ganlyniad i ddamwain yn y gwaith neu drwy gael afiechyd wrth weithio.

Y mae **Lwfans Rhiant Gweddw** yn daliad wythnosol ar gyfer gwragedd gweddw a gwŷr gweddw sydd â phlant dibynnol. Y mae'r swm a gewch yn dibynnu ar gofnodion Yswiriant Gwladol eich diweddar briod (oni bai ei fod wedi marw o ganlyniad i ddamwain yn y gwaith neu drwy gael afiechyd wrth weithio). Fe all hefyd gynnwys swm ychwanegol oddi wrth SERPS, yn seiliedig ar enillion eich priod.

Y mae'r **Lwfans Profedigaeth** yn daliad wythnosol am 52 o wythnosau, gan ddechrau o'r diwrnod y bu farw'ch priod. Fe fydd y swm a gewch yn dibynnu ar faint oedd eich oed pan fu farw'ch priod a'u cofnodion Yswiriant Gwladol (oni bai eu bod wedi marw o ganlyniad i ddamwain yn y gwaith neu drwy gael afiechyd wrth weithio). Ni allwch gael Lwfans Profedigaeth ar yr un pryd â Lwfans Rhiant Gweddw.

Ni ellir talu Lwfans Rhiant Gweddw a Lwfans Profedigaeth, y ddau, ar ôl oed ymddeol (60 i ferched, 65 i ddynion).

Budd-daliadau eraill

Budd-dal Plant (BP)

Fe allwch gael BP os ydych yn gyfrifol am blentyn. Nid yw'n dibynnu ar eich incwm neu'ch cynilion neu pa un ai ydych chi'n aros gartref gyda'r plentyn ai peidio. Hefyd, fe ellir ei dalu i rywun heblaw rhiant, er enghraifft, pan fo taid/nain yn gofalu am y plentyn. Fe'i telir yn arferol tan y mae'r plentyn yn 16, neu'n 19 os ydyw'n parhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch.

Lwfans Ceisio Gwaith (LCG)

Y mae LCG yn fudd-dal ar gyfer pobl sy'n ddi-waith ac sy'n chwilio am waith. I fod yn gymwys am LCG, y mae'n rhaid ichi gofrestru fel bod ar gael ar gyfer ac yn weithredol chwilio am waith ac eich bod wedi cytuno ar gytundeb Ceisiwr Gwaith i ddangos pa gamau yr ydych yn eu cymryd i ganfod gwaith.

Y mae LCG yn fudd-dal mewn dwy ran. Os ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y gorffennol, fe allwch fod yn gymwys am LCG sy'n seiliedig ar gyfraniadau. Fe delir hwn ar gyfradd unffurf am y 6 mis cyntaf o ddiweithdra.

Fe ellir talu LCG sy'n seiliedig ar incwm i gwblhau unrhyw LCG sy'n seiliedig ar gyfraniadau neu ar ei ben ei hun. Y mae prawf modd arno ac fe fydd y swm a gewch yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Am fwy o wybodaeth am LCG sy'n seiliedig ar incwm, gweler 'Budd-daliadau ar gyfer teuluoedd sydd ar incwm isel'.

Budd-dal Analluogrwydd (BA)

Y mae BA wedi'i gynllunio i gynorthwyo pobl ifanc ac oedolion sydd wedi'u hasesu fel analluog i weithio. Yn gychwynnol, fe fydd y swyddfa budd-daliadau fel arfer yn derbyn tystysgrif feddygol oddi wrth eich meddyg eich hun ond yn y pen draw fe fydd yn rhaid ichi basio'r Asesiad Gallu Personol (er bod rhai grwpiau wedi'u hesgusodi o'r prawf hwn). Fe fydd hyn fel arfer yn golygu archwiliad meddygol gan feddyg o'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Gan fod BA yn fudd-dal ar sail cyfraniadau, fe fyddai'n rhaid ichi fod wedi talu yswiriant gwladol yn y gorffennol er mwyn bod yn gymwys (ac eithrio rhai pobl ifanc - gweler 'Budd-daliadau pan fydd eich plentyn yn cyrraedd 16'). Hefyd, y mae'n fudd-dal nad oes prawf modd arno (er y gellir effeithio ar y swm a gewch os ydych yn derbyn pensiwn galwedigaethol). Fe all swm ychwanegol gael ei gynnwys os oes gennych oedolyn dibynnol (fel arfer priod).

Lwfans Mamolaeth (LM)

Y mae LM yn fudd-dal y wladwriaeth ar gyfer merched beichiog nad ydynt yn cael Tâl Mamolaeth oddi wrth eu cyflogwr. I fod yn gymwys, y mae'n rhaid eich bod wedi gweithio, naill ai fel gweithiwr cyflogedig neu'n hunan-gyflogedig, am o leiaf 26 o wythnosau yn ystod y 66 wythnos diwethaf cyn y genir y baban. Y mae'n rhaid eich bod wedi ennill cyfartaledd o fan leiaf £30 am 13 o'r wythnosau hynny.

Fe all merched nad ydynt yn gymwys am Dâl Mamolaeth Statudol neu LM fod yn gymwys am BA am o leiaf 6 wythnos cyn y genir y baban tan 2 wythnos ar ôl i'r baban gael ei eni. Fe ellir ei dalu am wythnosau eraill os nad ydych yn alluog i weithio. Am fwy o wybodaeth am BA, gweler uchod.

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol (BAAD)

Y mae BAAD yn fudd-dal a gynlluniwyd i gynorthwyo pobl sydd wedi'u hanafu neu sydd wedi dal 'afiechyd rhagnodedig' tra'u bod yn gweithio.

Os ydych wedi cael damwain yn y gwaith, fe all fod gennych hawl i gael BAAD. Nid yw o bwys faint yw'ch oed neu am ba mor hir yr ydych wedi gweithio yno neu faint yr ydych wedi'i ennill neu pa un ai ydych wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Fodd bynnag, y mae BAAD yn daladwy ar wahanol gyfraddau, yn dibynnu ar ba mor anabl yr ydych chi o ganlyniad i'r ddamwain neu'r afiechyd. Nid yw'n daladwy yn arferol oni bai eich bod wedi'ch asesu fel o leiaf yn 14% anabl, er bod yna rai eithriadau.

Os ydych wedi dal afiechyd yn rhinwedd eich gwaith, fe fyddwch ond yn gymwys os ydyw'n afiechyd a ddaw o dan y cynllun (fe ellir talu budd-daliadau am oddeutu 70 o wahanol afiechydon).

Lwfans Gweini (LGw)

Y mae'r budd-dal hwn yn gyffelyb iawn i elfen gofal y LBA, ac eithrio'i fod ar gyfer pobl sy'n dod yn anabl ar ôl cyrraedd 65 mlwydd oed ac nid oes yna swm cyfwerth â'r elfen symudedd ar gyfer pobl anabl hŷn. Fe'i telir ar 2 gyfradd ac y mae'r broses hawlio yr un ag ar gyfer LBA. Fel LBA, nid yw o bwys faint o incwm neu gynilion sydd gan yr hawliwr.

Fe fydd cael LGw hefyd yn eich cynorthwyo chi i fod yn gymwys am y Credyd Pensiwn (Credyd Gwarant), Budd-dal Tai i gynorthwyo gyda thalu unrhyw rent a all fod gennych, a Budd-dal Treth Cyngor (ad-daliad treth yng Ngogledd Iwerddon). Os oes yna rywun yn gofalu am berson sy'n cael LGw, fe allant hefyd gael Lwfans Gofalwr (LG) fel eu gofalwr. Y peth gorau fel arfer yw gwirio hyn yn gyntaf, gan y gall dyfarniad o LG, mewn rhai achosion, arwain at y person anabl yn colli rhai o'i fudd-daliadau prawf modd, e.e. Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.

Lwfans Byw i'r Anabl (LBA)

Fe ellir talu LBA hefyd i oedolion y mae arnynt angen cymorth gyda'u gofal personol a/neu sy'n cael trafferthion yn symud o amgylch. Am wybodaeth am fudd-daliadau sydd ar gael i oedolion anabl, gweler yr adran "Cael Cyngor".

Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth (PY)
Fe allwch gael PY os ydych wedi cyrraedd yr oed ymddeol (60 i ferched, 65 i ddynion) ac yr ydych naill ai wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol (ar gyfer pensiwn Categori A) neu'n gallu dibynnu ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol eich priod (ar gyfer pensiwn Categori B). Fe fydd y swm a gewch yn dibynnu ar faint o Yswiriant Gwladol yr ydych chi (neu ar gyfer pensiwn Categori B, y mae'ch priod) wedi'i dalu neu wedi cael credyd drosto yn ystod eich oes waith. Fe allwch gynyddu'ch pensiwn drwy wneud cais am 'Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref'. Y mae hyn yn cynorthwyo rhai gofalwyr a phobl sydd â phlant sydd â bylchau yn eu cofnodion yswiriant gwladol. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Linell Gymorth Cyswllt Teulu.

Os nad ydych yn gymwys am bensiwn Categori A neu Gategori B, neu y mae'n isel iawn, fe allwch gael pensiwn Categori D pan gyrhaeddwch 80 mlwydd oed. Nid oes yn rhaid eich bod wedi talu unrhyw Yswiriant Gwladol er mwyn bod yn gymwys am bensiwn Categori D.

Fe allwch fod yn gymwys am dâl ychwanegol os oes gennych oedolyn dibynnol. Hefyd, oni bai eich bod wedi eithrio, fe allwch gael pensiwn ychwanegol o dan Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar sail Enillion (SERPS), sydd bellach wedi'i ddisodli gan Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Fe wna Ail Bensiwn y Wladwriaeth gynorthwyo rhai grwpiau nad oes ganddynt enillion, megis gofalwyr.

Fe allwch barhau i weithio a hawlio'ch pensiwn yn llawn. Hefyd, fe all hi fod yn bosibl gohirio hawlio'ch pensiwn ar ôl ichi gyrraedd oed ymddeol er mwyn bod yn gymwys am gyfradd uwch pan wnewch hawlio. Ar yr adeg yr ysgrifennir hyn, fe allwch ond gohirio'ch pensiwn y wladwraeth am uchafswm o 5 mlynedd. Fodd bynnag, y mae'r llywodraeth yn bwriadu cael gwared â'r cyfyngiad hynny a hefyd caniatáu'r dewis o gymryd cyfandaliad yn hytrach na mwy o bensiwn. Fe ddisgwylir y newidiadau hyn rywbryd yn ystod 2005-06. Os ydych yn meddwl am ohirio'ch pensiwn, ewch am gyngor. Y mae hyn oherwydd y gall unrhyw fudd-daliadau yr ydych yn eu derbyn yn y cyfamser eich rhwystro rhag cael codiad/cyfandaliad oddi wrth bensiwn gohiriedig.

Fe fydd yr oed pensiwn yn cael ei gydraddoli i 65 ar gyfer dynion a merched fel ei gilydd rhwng 2010 a 2020.

Lwfans Gwarcheidwad (LGwa)

Y mae LGwa yn fudd-dal a delir i bobl sy'n gofalu am blant sydd i bob diben yn amddifad. I fod yn gymwys, y mae'n rhaid ichi ofalu am blentyn y mae'i ddau riant wedi marw, neu ble y mae un o'r rhieni wedi marw ac nid yw'n wybyddus ymhle y mae'r llall. Fe ellir hefyd ei dalu i bobl sy'n gofalu am blentyn sydd wedi colli rhiant ac y mae'r rhiant arall wedi'i ddedfrydu i gyfnod o garchar am ddwy flynedd neu fwy neu y mae'n cael ei gadw mewn ysbyty o dan orchymyn llys.

Yr hyn i wneud os nad ydych yn fodlon gyda phenderfyniad ynglŷn â budd-dal neu gredyd treth

Cael llythyr

Os ydych yn gwneud cais am fudd-dal, neu'n gofyn a gaiff eich cais am fudd-dal ei ailystyried, fe ddylir eich hysbysu o'r penderfyniad drwy lythyr o'r swyddfa sy'n ymdrin â'r cais hwnnw. Ar gyfer rhai budd-daliadau, nid yw'r rhesymau llawn am y penderfyniad yn cael eu cynnwys yn y llythyr. Os gofynnwch am hyn o fewn mis, fe ddylech dderbyn ateb o fewn pedwar diwrnod ar ddeg.

Beth nesaf?

Os ydych yn anfodlon ynglŷn â'r canlyniad, fe allwch ofyn am i'r penderfyniad gael ei adolygu. Y mae gennych fis oddi ar ddyddiad y llythyr i ofyn am hyn. Y mae'n rhaid i'r swyddfa a wnaeth ymdrin â'ch cais wedyn ei ailystyried a chyhoeddi penderfyniad newydd.

Os ydych yn anfodlon gydag unrhyw benderfyniad newydd, fe allwch apelio. Unwaith eto, y mae'n rhaid ichi apelio o fewn mis oddi ar ddyddiad llythyr y penderfyniad newydd. Y mae'n rhaid gwneud apêl yn ysgrifenedig ac fe allwch gael ffurflen oddi wrth y Swyddfa Budd-daliadau neu Ganolfan Gynghori leol.

Fe ddylech fod yn ymwybodol nad oes yna, gydag ychydig fathau o benderfyniadau, hawl apelio. Yn yr achosion hyn, fe allwch fel arfer ofyn am i'r

penderfyniad gael ei adolygu. Fe ddylai'r llythyr gyda'r penderfyniad ddweud wrthych a oes modd ichi apelio yn ei erbyn.

A oes yn rhaid imi ofyn am i'm cais gael ei adolygu cyn y gallaf apelio?

Nac oes. Nid oes yn rhaid ichi ofyn am i'ch cais gael ei adolygu ac fe allwch apelio'n syth os yw'n amgenach gennych. Fe ddylai Canolfan Gynghori leol neu Brosiect Hawliau Lles lleol allu cynorthwyo gyda'ch deisyfiad i gael ailystyried penderfyniad neu i gael apêl.

Credydau Treth

Fe all Cyllid y Wlad adolygu penderfyniad os oes yna newid mewn amgylchiadau, os ydynt wedi gwneud camgymeriad neu os ydynt yn credu bod eich dyfarniad yn un anghywir.

Os ydych yn anghytuno gyda phenderfyniad gan Gyllid y Wlad, fe allwch apelio. Y terfyn amser ar gyfer apelio yw deng niwrnod ar hugain oddi ar ddyddiad y penderfyniad. Y mae'n rhaid i apêl fod yn ysgrifenedig ac y mae'n rhaid nodi'r rhesymau pam yr ydych yn apelio. Fe ellir gwneud apeliadau ar ffurflen TC623, a geir yn nhaflen WTC/AP sydd ar gael oddi wrth Gyllid y Wlad. Oni bai eich bod yn datgan bod yna newid mewn amgylchiadau, y mae hi fel arfer yn well gofyn am apêl yn hytrach nag adolygiad. Y rheswm am hyn yw **nad** yw terfyn amser yr apêl yn cael ei ymestyn os gofynnwch am adolygiad ac y mae hyn yn cael ei wrthod.

Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Fe wneuthum gais am LBA dros fy mhlentyn ond fe'i gwrthodwyd. A ddylwn geisio hawlio eto?
Os yw'n dal o fewn mis o'r penderfyniad ar y cais, fe allwch ofyn am iddo gael ei adolygu ac fe ddylech gael penderfyniad newydd. Os ydych yn dal yn anfodlon, y mae gennych fis oddi ar ddyddiad y penderfyniad newydd i gyflwyno apêl (fe ddylai Canolfan Gynghori leol neu uned hawliau lles leol allu bod o gymorth gyda'r apêl). Neu fel arall, oni bai bod gennych resymau arbennig am beidio â herio'r penderfyniad yn gynt, fe all fod arnoch angen gwneud cais o'r newydd. Fe fydd hyn yn golygu na chaiff budd-dal ei dalu ar gyfer dyddiad cyn i'r cais newydd gael ei wneud.

Wrth herio penderfyniad, y mae hi bob amser orau i gael cymorth gan asiantaeth gynghori ac i gasglu tystiolaeth sy'n ategu'ch cais, megis llythyr oddi wrth Feddyg Teulu'ch plentyn neu weithiwr proffesiynol arall sy'n gysylltiedig â gofal iechyd eich plentyn. Os ydych yn penderfynu apelio ac wedyn yn dymuno gwneud cais arall, ewch am gyngor yn gyntaf. Y mae hyn oherwydd y gall cais newydd effeithio ar ganlyniad eich apêl, pan gaiff ei benderfynu yn derfynol.

Y mae fy mhlentyn yn cael LBA ar y cyfraddau is ond y mae'i gyflwr wedi gwaethygu ers y dyfarniad gwreiddiol. A gaf ofyn am i'w ddyfarniad LBA gael ei gynyddu?

Os yw anghenion eich plentyn wedi cynyddu, fe allwch ofyn am i'w ddyfarniad gael ei ystyried unwaith eto. Fe adwaenir hyn fel cais am benderfyniad i ddisodli'r gwreiddiol. Fodd bynnag, fe all gofyn am benderfyniad i ddisodli'r gwreiddiol arwain at ostwng budd-dal yn ogystal â chynyddu budd-dal. Oherwydd y risg hyn, y mae hi bob amser yn syniad da cael cymorth gan Ganolfan Gynghori leol neu brosiect hawliau lles.

Os af i weithio, a allaf gadw'r LBA dros fy mhlentyn?
Gallwch. Nid yw unrhyw incwm arall sydd gennych neu waith y gallech fod yn ei wneud yn effeithio ar LBA.

Yr wyf yn cael LG fel gofalwr dros fy mhlentyn ond fe hoffwn ddychwelyd i weithio. A allaf gadw'r LG?
Y rheol gyffredinol yw os ydych yn ennill £82 yr wythnos net neu lai ar ôl rhai costau, fel gofal plant tra eich bod yn gweithio, fe allwch gadw'r LG. Os ydych yn ennill mwy na hyn, fe fydd eich LG yn cael ei atal. Fodd bynnag, fe allech fedru cael budd-daliadau eraill os ydych yn dal ar incwm digon isel, megis Credyd Treth Gwaith. Fe ddylai Canolfan Gynghori leol neu wasanaeth cynghori cyffelyb arall allu'ch cynorthwyo chi i ganfod budd-daliadau eraill y mae gennych hawl i'w cael.

Pe byddech yn dod oddi ar LG, ac y mae rhywun arall yn awr yn cynorthwyo i ofalu am eich plentyn, efallai y byddai'n werth iddynt ystyried gwneud cais am y budd-dal hwn.

Yr wyf wedi hawlio LBA dros fy mhlentyn ond nid wyf wedi clywed dim eto. A ddylwn i hawlio'r LG neu aros i weld os caiff LBA ei ddyfarnu imi?
Hawliwch LG cyn gynted ag y gallwch. Fe all hi gymryd dipyn o amser weithiau i geisiadau am LBA gael eu penderfynu; mewn achosion anarferol, rai misoedd. Fe ellir ond ôl-ddyddio LG hyd at dri mis cyn y dyddiad yr ydych yn gwneud eich cais. Fe fydd hawlio'r ddau fudd-dal ar yr un pryd yn diogelu unrhyw daliadau LG a ôl-ddyddir. Sicrhewch eich bod yn gadael i'r Uned LG wybod os dyfarnir elfen gofal LBA ichi ar y gyfradd ganolig neu uchaf. Os ydych yn cael Credyd Treth Plant, sicrhewch eich bod chi hefyd yn hysbysu'r swyddfa credydau treth eich bod wedi gwneud cais am LBA (gweler 'LBA a budd-daliadau eraill' uchod).

Yr wyf eisoes yn cael LBA i mi fy hun ac yr wyf newydd lwyddo i sicrhau LBA dros fy mhlentyn. A allaf gael LG fel gofalwr fy mhlentyn hyd yn oed tra fy mod ar LBA?
Gallwch. Y mae llawer o ofalwyr eu hunain yn anabl neu'n dioddef gydag iechyd gwael. Ni ddylir gwrthod LG oherwydd eich bod yn cael LBA i chi'ch hun.

Yr wyf yn cael LG fel gofalwr fy mhlentyn ond yr wyf yn pryderu a yw fy Yswiriant Gwladol yn gyfoes. A fyddaf yn dal i gael pensiwn ymddeol pan gyrhaeddaf oed ymddeol?
Fe fydd cael pensiwn y wladwriaeth pan ymddeolwch yn dibynnu ar eich cofnodion yswiriant gwladol dros eich holl oes waith. Fe ddylai pob blwyddyn yr ydych yn cael LG gyfrif fel blwyddyn tuag at gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ond fe fydd yn rhaid ichi fod wedi talu rhywfaint o Yswiriant Gwladol yn y gorffennol o leiaf. Y mae LG hefyd yn eich cynorthwyo i gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth (ffoniwch Linell Gymorth Cyswllt Teulu am daflen ynglŷn â hyn).

Y mae yna reolau arbennig yn gymwys i rai gwragedd priod a wnaeth 'eithrio' o Yswiriant Gwladol. Os yw hyn yn berthnasol i chi, efallai nad ydych yn cael credydau tuag at eich pensiwn sylfaenol tra eich bod ar LG ac fe ddylech ymofyn cyngor arbenigol.

Cael cyngor

Y mae hi'n bwysig sicrhau bod unrhyw wybodaeth sydd gennych am lwfansau neu fudd-daliadau yn gyfoes gan eu bod yn newid mor aml. Fe fydd gan eich Canolfan Gynghori leol, eich Cynghorydd Hawliau Lles (a leolir fel arfer yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol leol) neu'ch asiantaeth gynghori wybodaeth fanwl am fudd-daliadau a mathau eraill o gymorth ariannol a all fod ar gael. Fe fyddant hefyd yn gallu'ch cynorthwyo gydag unrhyw geisiadau.
Am gymorth dros y ffôn, ffoniwch:

- **Llinell Gymorth Cyswllt Teulu 0808 808 3555** (Dydd Llun i Ddydd Gwener, 10.00 y bore – 4.00 y pnawn);
- **Llinell Gofalwyr 0808 808 7777** (Dydd Mercher a Dydd Iau, 10.00 y bore - 12.00 hanner dydd & 2.00 y pnawn – 4.00 y pnawn).

Fe all Llinell Ymholiadau Budd-daliadau, Ffôn: 0800 88 22 00 (Ffôn: 0800 22 06 74 yng Ngogledd Iwerddon) fod o gymorth gyda llenwi ffurflenni ac fe allant wedyn eu ffacsio i'ch Swyddfa Budd-daliadau leol. Y mae'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau hefyd yn darparu gwasanaeth i bobl nad eu hiaith gyntaf yw'r Saesneg.

Am fanylion unrhyw asiantaethau cynghori lleol a all gynorthwyo gyda thrafferthion gyda budd-daliadau, ffoniwch Linell Gymorth Cyswllt Teulu.

Mathau eraill o gymorth ariannol a all fod ar gael

Cael cymorth i symud o amgylch

Mewn rhai ardaloedd, y mae yna gynlluniau sy'n darparu cludiant rhad ar gyfer pobl sydd â phroblemau symudedd. Fe all enwau'r cynlluniau a'r hyn sy'n cael ei gynnig amrywio. Fe ddylai manylion fod ar gael oddi wrth eich Canolfan Gynghori leol, Biwro Gwirfoddoli, Cymdeithas Anabledd neu oddi wrth *Tripscope*, gwasanaeth gwybodaeth cenedlaethol am deithio a chludiant ar gyfer pobl sydd â nam ar eu symudedd:

Tripscope, The Vassall Centre, Gill Avenue, Bryste
BS16 2QQ Ffôn/Ffôn Testun: 0845 758 5641
Gwefan: http://www.tripscope.org.uk

Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Adnewyddu a Mân Waith

Cyn dechrau gweithio ar eich cartref i'w wneud yn fwy addas ar gyfer eich plentyn anabl, fe ddylech gysylltu â'r Awdurdod Tai lleol i weld pa gymorth sydd ar gael. Y mae yna amryw o wahanol grantiau ar gael (y mae yna brawf modd ar y rhan

fwyaf) ond y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, sydd o gymorth gyda thalu costau addasu eiddo ar gyfer person anabl, a all fod yr un mwyaf perthnasol. Y mae Cyswllt Teulu yn cynhyrchu taflen ffeithiau o'r enw 'Cymhorthion, Offer ac Addasiadau', sy'n rhoi mwy o wybodaeth am grantiau tai.

Treth Cyngor (Lloegr, Cymru a'r Alban)

Y mae Budd-dal Treth Cyngor wedi'i gynllunio i gynorthwyo pobl nad oes ganddynt ddigon o arian i dalu'u bil treth cyngor. Y mae yna hefyd amryw o gynlluniau i gynorthwyo carfanau penodol gyda'u treth cyngor drwy ostwng eu gwir fil. Y mae hyn yn cynnwys y Cynllun Lleihau Anabledd sy'n gostwng eich bil treth cyngor os oes rhywun yn eich cartref yn anabl ac y mae gennych ail ystafell ymolchi neu gegin y mae ar y person hwnnw ei hangen. Fe allwch hefyd fod yn gymwys am ostyngiad os oes gennych ystafell yn eich tŷ (heblaw am ystafell ymolchi, cegin neu doiled) y mae ar berson anabl ei hangen, neu os oes gennych ddigon o le yn eich cartref ar gyfer defnyddiwr cadair olwyn sy'n byw yno. Y mae yna hefyd Gynllun Disgownt, sy'n gostwng eich bil treth cyngor os oes yna lai na 2 oedolyn yn yr eiddo. Fe gaiff plant a rhai oedolion eu hanwybyddu wrth gyfrif y nifer o bobl sy'n byw yno. Y mae mwy o wybodaeth ar gael yn ein canllaw cryno i 'Cymorth gyda Threth Cyngor', sydd am ddim oddi wrth y Llinell Gymorth.

Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

Os oes gennych blentyn 16 neu 17 mlwydd oed sydd wedi aros ymlaen yn yr ysgol neu goleg, fe all fod yn gymwys i gael LCA. Y mae swm yr LCA yn dibynnu ar incwm y rhieni ac ni wneir taliad os yw'ch incwm trethadwy blynyddol yn fwy na ffigwr penodol (£30,000 am y flwyddyn academaidd 04-05). Nid yw LCA yn effeithio ar unrhyw un o'r budd-daliadau yr ydych chi neu'ch plentyn yn eu derbyn. Cysylltwch ag ysgol neu goleg eich plentyn neu gyda'n Llinell Gymorth am fwy o fanylion.

Cronfa Ymddiriedolaeth Plant

Y mae Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant (CYP) yn gyfrifon cynilo a buddsoddi hirdymor ar gyfer plant a anwyd ar neu ar ôl y 1af o Fedi 2002. Fe fydd pob plentyn sy'n gymwys yn derbyn yn awtomatig daleb oddi wrth y llywodraeth am £250 (neu £500 os yw incwm y rhieni yn isel) ac fe all eu rhieni eu defnyddio i agor CYP. Fe ddisgwylir y bydd talebau ar gael o fis Ebrill 2005. Y mae'r llywodraeth hefyd yn debygol o wneud rhagor o daliadau yn y dyfodol. Fe all rhieni, teulu a chyfeillion hefyd ychwanegu arian at y CYP, yn amodol ar derfynau blynyddol. Y mae'n rhaid i blentyn fel arfer aros tan y mae wedi cyrraedd 18 i gael at yr arian yn ei Gronfa. Fodd bynnag, os oes ar eich plentyn waeledd terfynol ac nid oes disgwyl iddo fyw am fwy na 6 mis, fe allwch gael mynediad cynnar i brynu pethau y mae ar eich plentyn eu hangen. Cysylltwch â'r Llinell Gymorth am fwy o fanylion am CYP.

Cronfa'r Teulu

Fe all Cronfa'r Teulu roi cyfandaliadau ar gyfer eitemau penodol sy'n deillio o ofalu am blentyn o dan 16 sydd ag anableddau difrifol. Fe fydd eich

amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Fe wna'r Gronfa ystyried unrhyw ddeisyfiad, ac felly fe allwch ofyn am ba beth bynnag y mae arnoch ei angen fwyaf: er enghraifft, offer golchi dillad, treuliau cludiant, dillad, gwyliau ac yn y blaen. I wneud cais, ysgrifennwch gan roi enw llawn a dyddiad geni'ch plentyn a manylion cryno o'i (h)anabledd ef neu hi, y math o gymorth y mae arnoch ei angen ac a ydych wedi bod mewn cysylltiad â'r gronfa o'r blaen, a'i anfon at:
Cronfa'r Teulu, Blwch Post 50, Caerefrog YO1 9ZX
Ffôn: 0845 130 4542 e-bost: info@familyfund.org.uk
Gwefan: http://www.familyfund.org.uk

Cymdeithas Lles y Teulu

Y mae'r sefydliad hwn yn gweinyddu amrywiaeth eang o Gronfeydd Ymddiriedolaeth. Y mae'n rhaid i Weithiwr Cymdeithasol wneud ceisiadau ar eich rhan. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Y Swyddog Grantiau, **Cymdeithas Lles y Teulu** / **Family Welfare Association**, 501-505 Kingsland Road, Dalston, Llundain E8 4AU
Ffôn: (020) 7254 6251 Gwefan: http://www.fwa.org.uk

Grantiau oddi wrth elusennau a chronfeydd lles eraill

Y mae'r Gyfarwyddiaeth dros Newid Cymdeithasol / Directory of Social Change yn cyhoeddi "Canllaw i Grantiau ar gyfer Unigolion mewn Angen." Y mae hwn yn arweiniad ymarferol i ffynonellau arian sydd ar gael oddi wrth fwy na 2,500 o ymddiriedolaethau ac elusennau. Fe all fod gan eich llyfrgell leol neu'ch Canolfan Gynghori gopi o'r canllaw hwn neu fe allwch brynu un am £29.95, gan gynnwys costau postio a phacio, oddi wrth:

Directory of Social Change, 24 Stephenson Way,
Llundain NW1 2DP Ffôn: 08450 77 77 07

Efallai hefyd y bydd yn werth cysylltu ag unrhyw sefydliad sy'n ymwneud â chyflwr neilltuol eich plentyn. Y mae rhai o'r elusennau hyn yn darparu grantiau bychain. Fe all Llinell Gymorth Cyswllt Teulu eich cynorthwyo i ganfod elusen addas.

Fe ellir canfod gwybodaeth am gymorth gyda chostau gwyliau yn nhaflen ffeithiau Cyswllt Teulu, sef "*Gwyliau, chwarae a hamdden*".